

## **Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd ar gael hyd at Flwyddyn 4 o fis Medi 2023 ymlaen**

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

O ddechrau mis Medi ymlaen bydd y cynnig Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (UPFSM) yn cael ei ymestyn i gynnwys disgyblion Blwyddyn 3 a 4, h.y. bydd yr holl blant dosbarth Derbyn - Blwyddyn 4 yn cael cynnig prydau ysgol am ddim cyffredinol. Mae hwn yn gam pwysig arall tuag at gyrraedd yr uchelgais o sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn mynd yn llwglyd tra yn yr ysgol.

Bydd bob disgybl dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 2, Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn ysgolion Sir Ddinbych yn cael ei ofyn bob dydd a hoffent gael mynediad at bryd ysgol ai peidio. Byddant yn gallu optio i mewn neu allan heb orfod archebu ymlaen llaw a bydd y pryd yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim.

Mae mwy o wybodaeth am UPFSM ar gael ar wefan Sir Ddinbych [www.sirddinbych.gov.uk/addysg](http://www.sirddinbych.gov.uk/addysg)

Os ydych yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim oherwydd eich bod yn cael budd-dal cymwys, rydym yn argymhell eich bod yn gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim gan y byddwch hefyd yn gymwys am Grant Hanfodion Ysgol (a elwid gynt y grant offer a gwisg ysgol).

I gael mwy o wybodaeth, yn cynnwys beth yw'r budd-daliadau cymwys a sut i ymgeisio, ewch i'n tudalen Prydau Ysgol am Ddim.

## **Rollout of Universal Primary Free School Meals up to Year 4 from September 2023 onwards**

Dear Parent/Guardian,

From the beginning of September 2023 onwards the Universal Primary Free School Meal (UPFSM) offer will be extended to include Year 3 & 4 pupils, i.e. all Reception – Year 4 children will be offered Universal Free School Meals. This is another important step in reaching the shared ambition of ensuring no child goes hungry while in school.

All Reception, Year 1, Year 2, Year 3 & Year 4 pupils in Denbighshire schools will be asked on a daily basis whether or not they would like to access a school meal. They will be able to opt in or out without having to pre book and the meal will be provided free of charge.

Further information on UPFSM is available on the Denbighshire website [www.denbighshire.gov.uk/education](http://www.denbighshire.gov.uk/education).

If you are eligible to receive Free School Meals because you receive a qualifying benefit, we recommend that you apply for Free School Meals as you will also be eligible for the School Essentials Grant (previously known as school uniform and equipment grant).

To find out more, including what the qualifying benefits are and how to apply, visit our Free School Meals page.

Os yw eich plentyn yn cael prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd a/neu fudd-daliadau cysylltiedig eraill, gallwch fod yn dawel eich meddwl, na fydd hyn yn effeithio arnynt.

Cofion cynnes



Geraint Davies  
Pennaeth Addysg

Please rest assured that if your child is currently in receipt of free school meals and/or any other associated benefits, these will not be affected.

Kind regards



Geraint Davies  
Head of Education